Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges
Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

# Rheoli Diogelwch Gwylwyr Lefel 4 (Rhan-Amser) Dechrau Ionawr

Trwy gwblhau’r cymhwyster hwn, bydd dysgwyr yn bodloni gofynion y diwydiant i gyflawni rolau rheoli gwylwyr yn cynnwys swyddog diogelwch.

Pwrpas y cymhwyster hwn yw cadarnhau cymhwysedd galwedigaethol a darparu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o Ddiogelwch Gwylwyr i ddysgwyr. Maent wedi’u mapio i Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Skills Active (NOS) ar gyfer Diogelwch Gwylwyr 2019.

Mae’r Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwaraeon (SGSA) yn arweinwyr ym maes diogelwch meysydd chwaraeon yn y DU ac wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod cynnwys ein cymwysterau Diogelwch Gwylwyr yn adlewyrchu’r bygythiadau newidiol i ddigwyddiadau a mannau gorlawn.

Mae rhanddeiliaid yn cynnwys cyrff llywodraethu, swyddogion diogelwch, gweithredwyr lleoliadau, darparwyr hyfforddiant, asiantaethau’r llywodraeth, arbenigwyr pwnc a chymdeithasau masnach.

Mae Diploma Lefel 4 yr YMCA mewn Rheoli Gwylwyr wedi’i gynllunio i fodloni anghenion y rhan fwyaf o gyflogwyr, gan alluogi dysgwyr i ddangos y gofynion sylfaenol ar gyfer swyddog diogelwch mewn meysydd chwaraeon dynodedig a digwyddiadau mwy.

## Gofynion Mynediad

Rhaid i ddysgwyr fod yn 16+ oed.
Cyn y gellir ardystio dysgwyr ar gyfer y cymhwyster hwn, rhaid iddynt gwblhau:
- Cwrs hyfforddi cynnal bywyd sylfaenol sy'n cynnwys: CPR, safle adfer, defnyddio diffibriliwr a sut i reoli gwaedu ee Dyfarniad Lefel 3 YMCA mewn Cymorth Cyntaf Brys yn y Gweithle (603/1902/1).
- Cwrs Hyfforddiant Strategol Gweithredu Gwrthderfysgaeth (ACT).

## Rhagolygon Gyrfa

Mae cwblhau'r cymwysterau hyn yn rhoi mynediad i swyddi rheoli diogelwch gwylwyr gan gynnwys fel swyddog diogelwch ar gyfer meysydd chwaraeon dynodedig a digwyddiadau mwy.

## Modiwlau'r cwrs

Er mwyn cyflawni Diploma Lefel 4 YMCA mewn Rheoli Diogelwch Gwylwyr rhaid i ddysgwyr gwblhau wyth uned orfodol a thair uned ddewisol.

Mae modiwlau gorfodol y cwrs yn cynnwys:
– Cynllunio ar gyfer diogelwch pobl mewn digwyddiadau gwylwyr
– Rheoli diogelwch a diogeledd pobl mewn digwyddiadau gwylwyr
– Datblygu, gweithredu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelwch a diogeledd mewn digwyddiadau gwylwyr
– Rheoli gwybodaeth ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar gyfer digwyddiadau gwylwyr
– Rheoli adnoddau ar gyfer diogelwch a diogeledd mewn digwyddiadau gwylwyr
– Rheoli risgiau mewn mannau gorlawn
– Rheoli'r ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau arwyddocaol neu fawr a chynllunio ar gyfer gwydnwch
– Gweithio gydag eraill i wella gwasanaeth cwsmeriaid

Mae modiwlau dewisol y cwrs yn cynnwys:
– Monitro a datrys problemau gwasanaeth cwsmeriaid*
– Recriwtio, dewis a chadw pobl
– Cefnogi dysgu a datblygiad unigolion
– Nodi a gwerthuso cyfleoedd ar gyfer arloesi a gwella
– Dyrannu a monitro cynnydd ac ansawdd eich gwaith yn eich maes cyfrifoldeb
– Datblygu eich gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd*
– Rheoli Prosiectau
– Datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid*

*Argymhellir yn gryf mai dim ond dysgwyr nad ydynt wedi cwblhau cymhwyster lefel 3 mewn diogelwch gwylwyr yn flaenorol sy'n dewis yr unedau hyn.

## Asesiad

Portffolio o dystiolaeth
Arddangosiad ymarferol

## DULL ASTUDIO

WP

**LLEOLIAD**

**HYD Y CWRS**

2Y